Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 86 (Cy. 24)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (gweler Rhan 2 o'r Rheoliadau),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") (gweler Rhan 3 o'r Rheoliadau), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol") (gweler Rhan 4 o'r Rheoliadau).

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym a'u cymhwyso.

Mae Pennod 2 yn Rhan 2, Rhan 3 a Rhan 4 yn diwygio symiau amrywiol a bennir yn Rheoliadau 2017, Rheoliadau 2018 a'r Rheoliadau Benthyciadau at Radd Ddoethurol yn y drefn honno.

Mae Pennod 3 yn Rhan 2 a Rhan 3 yn diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 yn y drefn honno i gynyddu swm yr incwm a ddiystyrir wrth gyfrifo swm y grantiau ar gyfer dibynyddion.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 86 (Cy. 24)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Ionawr 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *26 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *22 Chwefror 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(1)(a), 22(2)(b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

(**1**) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22(1) gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 22(1)(a) a 22(2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o'r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 1

## Enwi, dod i rym a chymhwyso

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Chwefror 2024.

**Cymhwyso**

**2.**—(1) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio—

(a) 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30 a 31 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018);

(b) 19, 20 a 32 (grantiau ar gyfer dibynyddion: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018).

(2) Mae rheoliad 34 (diweddaru symiau: Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018) yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyriwr mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024, pa un a wneir unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn cyn, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ai peidio.

# RHAN 2

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**3.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017([1]) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

---

([1]) O.S. 2017/47 (Cy. 21); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/191 (Cy. 42); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2022/79 (Cy. 28); O.S. 2023/87 (Cy. 17) ac O.S. 2023/1349 (Cy. 243).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## PENNOD 2

### Cymorth ariannol

**4.** Yn rheoliad 16—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,215" rhodder "£4,175";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£4,785" rhodder "£4,825";

(c) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£2,175" rhodder "£2,150";

(d) ym mharagraff (4)(b), yn lle "£2,325" rhodder "£2,350".

**5.** Yn rheoliad 19—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,785" rhodder "£4,825";

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£2,325" rhodder £2,350".

**6.** Yn rheoliad 24(3)(a), yn lle "£33,146" rhodder "£33,460".

**7.** Yn rheoliad 26(3)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£3,322" rhodder "£3,353";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£3,322" rhodder "£3,353".

**8.** Yn rheoliad 27—

(a) ym mharagraff (7)(a), yn lle "£187" rhodder "£189";

(b) ym mharagraff (7)(b), yn lle "£321" rhodder "£324";

(c) ym mharagraff (9)(a), yn lle "£144" rhodder "£145".

**9.** Yn rheoliad 28(2), yn lle "£1,896" rhodder "£1,914".

**10.** Yn rheoliad 43—

(a) ym mharagraff (2)(i), yn lle "£6,277" rhodder "£6,336";

(b) ym mharagraff (2)(ii), yn lle "£11,357" rhodder "£11,465";

(c) ym mharagraff (2)(iii), yn lle "£9,667" rhodder "£9,759";

(d) ym mharagraff (2)(iv), yn lle "£9,667" rhodder "£9,759";

(e) ym mharagraff (2)(v), yn lle "£8,108" rhodder "£8,185";

(f) ym mharagraff (3)(i), yn lle "£5,683" rhodder "£5,737";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(g) ym mharagraff (3)(ii), yn lle "£10,342" rhodder "£10,440";

(h) ym mharagraff (3)(iii), yn lle "£8,408" rhodder "£8,488";

(i) ym mharagraff (3)(iv), yn lle "£8,408" rhodder "£8,488";

(j) ym mharagraff (3)(v), yn lle "£7,511" rhodder "£7,582".

**11.** Yn rheoliad 45—

(a) ym mharagraff (1)(b)(i), yn lle "£2,980" rhodder "£3,008";

(b) ym mharagraff (1)(b)(ii), yn lle "£5,585" rhodder "£5,638";

(c) ym mharagraff (1)(b)(iii), yn lle "£4,752" rhodder "£4,797";

(d) ym mharagraff (1)(b)(iv), yn lle "£4,752" rhodder "£4,797";

(e) ym mharagraff (1)(b)(v), yn lle "£3,973" rhodder "£4,011";

(f) ym mharagraff (1)(c)(i), yn lle "£4,708" rhodder "£4,752";

(g) ym mharagraff (1)(c)(ii), yn lle "£8,518" rhodder "£8,599";

(h) ym mharagraff (1)(c)(iii), yn lle "£7,250" rhodder "£7,319";

(i) ym mharagraff (1)(c)(iv), yn lle "£7,250" rhodder "£7,319";

(j) ym mharagraff (1)(c)(v), yn lle "£6,081" rhodder "£6,139";

(k) ym mharagraff (2)(b)(i), yn lle "£2,265" rhodder "£2,286";

(l) ym mharagraff (2)(b)(ii), yn lle "£4,271" rhodder "£4,311";

(m) ym mharagraff (2)(b)(iii), yn lle "£3,474" rhodder "£3,507";

(n) ym mharagraff (2)(b)(iv), yn lle "£3,474" rhodder "£3,507";

(o) ym mharagraff (2)(b)(v), yn lle "£3,096" rhodder "£3,125";

(p) ym mharagraff (2)(c)(i), yn lle "£4,262" rhodder "£4,303";

(q) ym mharagraff (2)(c)(ii), yn lle "£7,757" rhodder "£7,830";

(r) ym mharagraff (2)(c)(iii), yn lle "£6,306" rhodder "£6,366";

(s) ym mharagraff (2)(c)(iv), yn lle "£6,306" rhodder "£6,366";

(t) ym mharagraff (2)(c)(v), yn lle "£5,633" rhodder "£5,737".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**12.** Yn rheoliad 50(1)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£93" rhodder "£94";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£179" rhodder "£181";

(c) yn is-baragraff (c), yn lle "£196" rhodder "£198";

(d) yn is-baragraff (d), yn lle "£196" rhodder "£198";

(e) yn is-baragraff (e), yn lle "£141" rhodder "£142".

**13.** Yn rheoliad 56—

(a) ym mharagraff (3)(a), yn lle "£4,708" rhodder "£4,752";

(b) ym mharagraff (3)(b), yn lle "£8,518" rhodder "£8,599";

(c) ym mharagraff (3)(c), yn lle "£7,250" rhodder "£7,319";

(d) ym mharagraff (3)(d), yn lle "£7,250" rhodder "£7,319";

(e) ym mharagraff (3)(e), yn lle "£6,081" rhodder "£6,139";

(f) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£4,262" rhodder "£4,303";

(g) ym mharagraff (4)(b), yn lle "£7,757" rhodder "£7,830";

(h) ym mharagraff (4)(c), yn lle "£6,306" rhodder "£6,366";

(i) ym mharagraff (4)(d), yn lle "£6,306" rhodder "£6,366";

(j) ym mharagraff (4)(e), yn lle "£5,633" rhodder "£5,687".

**14.** Yn rheoliad 88(3)(a), yn lle "£33,146" rhodder "£33,460".

**15.** Yn rheoliad 91(3)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£3,322" rhodder "£3,353";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£3,322" rhodder "£3,353".

**16.** Yn rheoliad 92—

(a) ym mharagraff (6)(a), yn lle "£187" rhodder "£189";

(b) ym mharagraff (6)(b), yn lle "£321" rhodder "£324";

(c) ym mharagraff (8)(a), yn lle "£144" rhodder "£145".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**17.** Yn rheoliad 93(2), yn lle "£1,896" rhodder "£1,914".

**18.** Yn rheoliad 117(2)(a), yn lle "£33,146" rhodder "£33,460".

PENNOD 3

Grantiau ar gyfer dibynyddion

**19.** Yn rheoliad 29(2), yn lle—

(a) "£1,180" rhodder "£1,192";

(b) "£3,537" rhodder "£3,570";

(c) "£4,717" rhodder "£4,762";

(d) "£5,904" rhodder "£5,960".

**20.** Yn rheoliad 94(2), yn lle—

(a) "£1,180" rhodder "£1,192";

(b) "£3,537" rhodder "£3,570";

(c) "£4,717" rhodder "£4,762";

(d) "£5,904" rhodder "£5,960".

# RHAN 3

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

PENNOD 1

Cyflwyniad

**21.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Cymorth ariannol

**22.** Yn rheoliad 55, yn Nhabl 7—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | | |
|---|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | Categori 1 | Byw gartref | £9,315 |
| | | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £14,170 |

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2018/813 (Cy. 164); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2020/153 (Cy. 27); O.S. 2021/73 (Cy. 19); O.S. 2022/79 (Cy. 28); O.S. 2023/87 (Cy. 17) ac O.S. 2023/1349 (Cy. 243).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £11,150 |
| Categori 2 | Byw gartref | £4,655 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £7,085 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £5,575” |

**23.** Yn rheoliad 56—

(a) yn Nhabl 8—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2024”;

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | Byw gartref | £10,315 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £15,170 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £12,150” |

(b) Yn Nhabl 8A—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2024”;

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | Byw gartref | £4,655 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £7,085 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £5,575” |

**24.** Yn rheoliad 57(7), yn Nhabl 9—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl “Sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023” mewnosoder “ond cyn 1 Medi 2024”;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | Byw gartref | £94 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn Llundain | £181 |
| | Byw oddi cartref, astudio yn rhywle arall | £142" |

**25.** Yn rheoliad 58(2), yn Nhabl 10—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | £7,965 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio" |

**26.** Yn rheoliad 58A(2), yn Nhabl 10A—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | £8,965 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio" |

**27.** Yn rheoliad 63(2), yn lle "£33,146" rhodder "£33,460".

**28.** Yn rheoliad 72(2), yn Nhabl 11—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | £3,353" |

**29.** Yn rheoliad 74, yn Nhabl 12—

(a) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(b) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | £1,914" |

**30.** Yn rheoliad 76—

(a) ym mharagraff (2), yn Nhabl 13—

(i) yng ngholofn 1, ar ôl "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2023" mewnosoder "ond cyn 1 Medi 2024";

(ii) ar ddiwedd y Tabl, mewnosoder y cofnod a ganlyn yn y tabl—

| | | |
|---|---|---|
| "Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2024 | Un plentyn dibynnol | £189 |
| | Mwy nag un plentyn dibynnol | £324" |

(b) ym mharagraff (4)(a), yn lle "£144" rhodder £145".

**31.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 20(2), yn lle "£33,146" rhodder "£33,460".

PENNOD 3

Grantiau ar gyfer dibynyddion

**32.** Yn rheoliad 77, ym mharagraff (1), yn lle—

(a) "£6,272" rhodder "£6,332";

(b) "£8,629" rhodder "£8,711";

(c) "£9,809" rhodder "£9,902";

(d) "£10,996" rhodder "£11,100".

# RHAN 4

## Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

PENNOD 1

Cyflwyniad

**33.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

PENNOD 2

Cymorth ariannol

**34.** Yn rheoliad 13—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£28,395" rhodder "£28,655";

(**1**) O.S. 2018/656 (Cy. 124); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2020/153 (Cy. 27), O.S. 2021/73 (Cy. 19), O.S. 2022/403 (Cy. 100) ac O.S. 2023/87 (Cy. 17).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ym mharagraff (2)(b), yn lle “£28,395” rhodder “£28,655”.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
24 Ionawr 2024